CYNGOR TREF FFESTINIOG

Swyddfa'r Cyngor 5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog Gwynedd LL41 3ES
☎ 01766 832398
cyngortrefffestiniog@tiscali.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL O'R CYNGOR
GYNHALIWYD NOS LUN 21ain o FAI 2007
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Margretta Young-Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: H. Emyr Jones, Agnes Edwards, Arthur H. Williams, Morfydd Lloyd, Linda A.W.Jones, Eddie Roberts, Carolyn Iolo George Hughes

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Mel Goch ap Meirion, Dafydd G. Dafis, Arwel Jones, Rhian Williams, Ceinwen Ll. Humphreys.

Cymerwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd a chroesawyd yr aelodau i'r cyfarfod.

7063/05/07 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Linda A. W. Jones	-	Pob Cais Cynllunio
Cynghorydd George Hughes	-	Cais Cynllunio Rhif CO7M/0053/03/LL ac NP5/59/707

7064/05/07 MATERION BRYS

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran Cyngor Tref Ffestiniog i Drenau Arriva Cymru am y gwahoddiad i gwrdd â Maer a Maeres Cyngor Tref Llandudno, Maeres Cyngor Conwy a Chadeirydd Cyngor Tref Llanrwst ar stesion Blaenau Ffestiniog fore Llun 21ain o Fai 2007 i ddathlu Wythnos Rheilffyrdd Cymunedol. Derbyniwyd rhoddion gan y gwesteion hyn a dangoswyd hwy i'r Cyngor Tref. Llongyfarchwyd y Cadeirydd gan y Cynghorydd Arthur H. Williams am ei phresenoldeb a'i ymddygiad ar yr achlysur pwysig hwn ac ategodd y Cynghorydd Huw Emyr Jones at yr hyn a ddywedwyd gan y Cynghorydd Arthur H. Williams.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Linda A. W. Jones ar ei rhan hi a'r Cynghorydd Morfydd Lloyd am eu hymddygiad yn gadael cyfarfod 4ydd o Fai 2007. Ymddiheurodd y Cynghorydd Arthur H. Williams hefyd am ei ymddygiad pan adawodd yr un cyfarfod.

Darllenodd y Cadeirydd lythyrau a oedd wedi eu derbyn er cyfarfod 4ydd o Fai 2007. Y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion oedd awdur y llythyr cyntaf ac ynddo ymddiheurodd am ymddwyn yn amharchus tuag at y Cadeirydd drwy adael cyfarfod 4ydd o Fai 2007. Adroddodd yn ei lythyr iddo fod wedi ymddiswyddo yn ddiweddar oddi ar is-bwyllgor cynllunio'r Cyngor oherwydd sylwadau'r Cynghorydd George Hughes, ac yn ystod ei amser fel cynghorydd dros ward Cynfal a Teigl mae wedi dod yn araf amlwg iddo amharodrwydd y cynghorydd yma i gyd dynnu a chyd weithio gyda'i gyd cynghorwyr er lles y gymuned. Aeth ymlaen i ofyn yn garedig a ganiateir ychydig amser iddo er mwyn pwyso a mesur y sefyllfa

er mwyn cyrraedd y penderfyniad os allai barhau i gynrychioli'r gymuned yn effeithiol o dan yr amgylchiadau sy'n bodoli.

Awdur yr ail lythyr oedd y Cynghorydd Dafydd Gwallter Dafis, a gwnaeth ef hefyd ymddiheuro am adael cyfarfod 4ydd o Fai 2007. Adroddodd i hyn fod o ganlyniad i flynyddoedd o anhapusrwydd a gofid sydd wedi dod i'w ran oherwydd mae'n credu, y cwynion mae'r Cynghorydd George Hughes wedi eu dwyn yn erbyn y Cyngor Tref yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r chwalfa mae'r Cyngor wedi cael o ganlyniad i'r rhain. Aiff ymlaen i ddweud iddo ymddiswyddo oddi ar is-bwyllgor cynllunio'r Cyngor yn ddiweddar oherwydd ei anfodlonrwydd i gyd weithio bellach a'r cynghorydd yma. O ganlyniad i'r rhesymau uchod gofynnodd y Cynghorydd Dafydd Gwallter Dafis am ganiatâd i gael amser i ystyried ei ddyfodol fel Cynghorydd Tref yn cynrychioli ward Tanygrisiau.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Mr Larry Davies, Trenau Arriva Cymru gan ddiolch iddo am drefnu'r digwyddiad fore Llun 21ain o Fai 2007. Derbyn ymddiheuiadau'r cynghorwyr a oedd yn bresennol. Ysgrifennu at y Cynghorwyr Mel Goch ap Meirion a Dafydd Gwallter Dafis yn caniatáu iddynt gael amser i ystyried eu sefyllfa fel Cynghorwyr Tref.

7065/05/07 MATERION HEDDLU

Oherwydd salwch ni fu'r Rheolwr Rhawd Gymunedol Dewi Wynne yn bresennol yn y cyfarfod. .

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

7066/05/07 CYMHORTHFA CYNGHORWYR

Cynhelir Cymhorthfa Cynghorwyr nesaf Dydd Sadwrn 9fed o Fehefin 2007 rhwng 9.30 ag 11.00 o'r gloch y bore yn adeilad y Cyngor. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynnal cymorthfeydd yn Ffestiniog.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a chytunwyd i'w raglennu cael cymorthfeydd yn Ffestiniog ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

7067/05/07 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 12fed o EBRILL 2007

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd H. Emyr Jones yn cynnig a'r Cynghorydd George Hughes yn eilio.

7068/05/07 AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Cynllun Rheolaeth a Chynllun Datblygu Lleol Eryri

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi paratoi 'papurau trafod' i gynorthwyo gyda'r gwaith o roi ystyriaeth i'r materion hynny a adnabuwyd fel rhai pwysig i ddatblygu polisïau cynaliadwy. Pwrpas y papurau yw ymrwymo budd-ddeiliaid o'r gymuned a denu sylwadau ganddynt er mwyn cynorthwyo i lunio dyfodol Eryri. Bydd y papurau hyn i'w gweld ar eu gwefan www.eryri-npa.gov.uk/dyfodoleryri, yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ac yng Nghanolfannau Gwybodaeth y Parc Cenedlaethol.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

7069/05/07 YSGOL BRO CYNFAL

Cais drwy lythyr gan yr Aelod Seneddol, Mr Elfyn Llwyd am gefnogaeth y Cyngor Tref i gael gosod mesurau arafu traffic ger Ysgol Bro Cynfal. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r llythyr hwn a chytunwyd bod problem gôr yrru yn yr ardal hon.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at yr Aelod Seneddol yn datgan cefnogaeth y Cyngor Tref a hefyd i ysgrifennu at Mr R. Bryn Jones, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, yn gofyn iddo am ei sylwadau.

7070/05/07 CLWB IEUENCTID

Derbyniwyd llythyr gan ddau aelod o'r clwb ieuenctid yn gofyn am gefnogaeth ariannol gan y Cyngor Tref er mwyn cadw'r Clwb Ieuenctid ar agor am o leiaf dwy noson yr wythnos dros gyfnod yr haf.

PENDERFYNIAD: I ymateb yn ôl i'r ddwy ferch ifanc a gofyn am gael cyfarfod brys gyda hwy ac arweinyddion y Clwb Ieuenctid er mwyn dyfalu ffordd ymlaen i'w cefnogi'n ariannol.

7071/05/07 TIR GER TY'N Y MAES, FFESTINIOG

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn sawl llythyr cwyn a galwadau ffôn yn ddiweddar oherwydd pryderon trigolion Ty'n y Maes, Ffestiniog ynglŷn â gwaith sydd wedi ei wneud ar dir diffaith yn yr ardal. Cafwyd gwybodaeth bod swyddog adran cynllunio'r Parc Cenedlaethol wedi gwneud ymweliad safle a bod ymholiadau yn cael eu gwneud i berchnogaeth gyfreithiol y tir yma. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar berchennog os yw yn dewis cael man caled ar gyfer parcio ceir ar ei dir ond os bydd unrhyw ddefnydd arall e.e. trwsio ceir yn cael ei wneud o'r tir hwn yna bydd angen caniatâd newid defnydd.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ymateb, o ran cwrteisi, a'r rhai sydd wedi ysgrifennu at y Cyngor yn datgan y wybodaeth hon.

7072/05/07 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

O ganlyniad i'r gyllideb a gafwyd i'r heddlu ar gyfer 2007/2008, a'r goblygiadau o safbwynt plismona cymdogaethau yng Ngogledd Cymru, byddai Awdurdod yr Heddlu ac uwch-swyddogion heddlu yn hoffi'r cyfle i gyfarfod a chynghorwyr lleol eto i'w hysbysu ynghylch ffurf plismona cymdogaethau i'r dyfodol yn eu hardal, ac i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt o safbwynt hyn fel cynrychiolwyr lleol.

PENDERFYNIAD: Penodwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gynrychioli'r Cyngor Tref yng nghyfarfod yr Awdurdod Heddlu i'w gynnal ym Mhorthmadog 11eg o Fehefin 2007.

7073/05/07 CYNGOR GWYNEDD CYFADRAN YR AMGYLCHEDD

Fel rhan o ymgyrch Cyngor Gwynedd i leihau faint o wastraff sydd yn mynd i dirlenwi bydd cynllun casglu gwastraff gwyrdd yn cael ei ymestyn i rannau o ardal Meirionnydd. Bydd dros bedwar mil o dai ym Meirionnydd yn derbyn bin brown ar gyfer toriadau gwair, torion gwrych, phlanhigion mawr a dail o'r ardd. Mae treial wedi ei gynnal yn llwyddiannus yn Nwyfor ac ardaloedd Harlech a Phenrhyndeudraeth er Mai 2004 ac wedi sicrhau bod dros 2500 tunnell o wastraff gwyrdd wedi ei ddargyfeirio o safleoedd tirlennwi a'r

droi yn gompost. Dyma un o nifer o ffyrdd mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu i leihau gwastraff sydd yn mynd i dirlenwi. Mae targed statudol y Cynulliad yn gofyn i Gyngor Gwynedd ailgylchu a chompostio 40% o'n gwastraff yng Ngwynedd erbyn 2010, gydag o leiaf 15% o'r gwastraff i gael ei gompostio.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth ac ymestyn gwahoddiad i swyddog Cyngor Gwynedd sydd gyda chyfrifoldeb ailgylchu i gwrdd â'r Cyngor Tref.

7074/05/07 CEISIADAU CYNLLUNIO

Datgan Diddordeb Cynllunio Cyngor Gwynedd

Ni fu'r Aelodau lleol ar Gyngor Gwynedd, Cynghorwyr Arwel Jones a Linda A W Jones, yn bresennol yn ystod unrhyw benderfyniad a phleidlais ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Derbyn a Chadarnhau argymhellion is bwyllgor cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Dydd Mawrth 17eg o Ebrill 2007 am 7.30 o'r gloch.

Argymhellion Is bwyllgor Cynllunio
A chynhaliwyd yn Siambr y Cyngor
17eg o Ebrill 2007 am 7.30 yr hwyr

Yn bresennol:
Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes
Cynghorydd Margretta Young-Jones
Cynghorydd Agnes Edwards
Cynghorydd Morfydd Lloyd
Cynghorydd H. Emyr Jones
Cynghorydd George Hughes

Ymddiheuriadau:

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Dafydd Hughes	Cais Cynllunio Rhif CO7M/0053/03/LL
Cynghorydd H. Emyr Jones	Cais Cynllunio Rhif NP5/59/450B
Cynghorydd George Hughes	Cais Cynllunio Rhifau CO7M/0053/03/LL ac NP5/59/707

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/707
Llety Fadog
Ffestiniog

Cais amlinellol i godi dau dŷ i weithwyr amaethyddol
Argymell amod defnyddio llechi lleol a gofynnir a oes digon o waith ar y fferm i gynnal dau deulu.

2. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/E708
Bryn Tirion, Pantllwyd
Ffestiniog

Ail adeiladu gwifren drydan
Dim gwrthwynebiad ond gofynnir a gaiff y wifren yma ei gosod o dan ddaear.

3. Cais Cynllunio Rhif CO7M/0053/03/LL
Cyn Fecws, Rhes Glandŵr
Blaenau Ffestiniog

Trosi cyn fecws yn weithdy
Gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â defnydd y gweithdy

4. Cais Cynllunio Rhif CO7M/0058/03/LL
Dorfil Stores & Bakery
Blaenau Ffestiniog

Dymchwel adeiladu presennol ac adeiladu 3 tŷ deulawr a chreu fflat uwchlaw uned adwerthu
Cais gyda chynghorydd lleol, felly ni chafwyd ei drafod

5. Cais Cynllunio Rhif CO7M/0056/03/LL
Wynnes Arms, Manod
Blaenau Ffestiniog

Adeiladu 'decking' wedi ei gysgodi ar ochr tŷ tafarn
Dim gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio CO7M/0057/03/LL
Meirion Vaults
Blaenau Ffestiniog

Gosod canopy uwchlaw drws tŷ tafarn
Dim gwrthwynebiad

7. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/450B
Ty'n y Ffridd
Cwm Cynfal

Codi modurdy
Dim gwrthwynebiad ond gobeithir y caiff llechi lleol eu defnyddio.

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Eddie Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Arthur H. Williams yn eilio.

Mae'r ceisiadau isod wedi cael eu derbyn rhwng cyfarfod 12fed o Ebrill 2007 a chyfarfod 4ydd o Fai 2007.

a) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0051/03/LL
Llain 2, Trefnant
Cae Clyd
Blaenau Ffestiniog

Adeiladu Bynglo Gromen

b) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0050/03/LL
Llain 1, Trefnant
Cae Clyd
Blaenau Ffestiniog

Adeiladu Bynglo Gromen

c) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0063/03/AM
Tir ger Sgwâr Oakley
Blaenau Ffestiniog

Adeiladu 6 annedd

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD GYNGOR GWYNEDD

a) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0037/03/LL
Talwaenydd
Blaenau Ffestiniog
Ail adeiladu gwifren drydan
Caniatáu

b) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0026/03/LL
13 Heulfryn
Blaenau Ffestiniog
Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy newydd
Caniatáu

c) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0042/03/LL
Capel Horeb
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Trosi capel diddefnydd yn annedd
Caniatáu

ch) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0042/03/LL
Tir ger 49 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Creu ramp mynediad newydd
Caniatáu

d) Cais Cynllunio Rhif CO7M/0042/03/LL
Bwlch Iocyn
Blaenau Ffestiniog
Amnewid ffenestri presennol a chodi lolfa haul i'r cefn
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a'r argymhellion a threfnu is bwyllgor cynllunio i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Prynhawn Gwener 25ain o Fai 2007 am 12.30 o'r gloch.

7075/05/07 LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

Datganiad Polisi Llywodraeth Leol 2007 - Rhannu Cyfrifoldeb

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

7076/05/07 HER IECHYD CYMRU – MYND AMDANI

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

7077/05/07 CHWARAE DROS GYMRU

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

7078/05/07 SHELTER CYMRU

Cylchlythyr Gwanwyr / Haf 2007

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a gadael y llyfryn ar y bwrdd i unrhyw Aelod sydd â diddordeb gymryd ei benthyg.

7079/05/07 CEISIADAU ARIANNOL

Blaenau Bendigedig	£	100.00	Rhif Siec	000839

7081/05/07 ARIAN A DDERBYNIWYD

Cyngor Gwynedd (Llwybrau Cyhoeddus)	£	4230.00
D Thomas	£	16.00

7081/05/07 CYFRIFON I'W TALU

Arian Parod	£	30.00	Rhif Siec	000820
Arian Parod (re Baner)	£	16.00	Rhif Siec	000821
PAYE	£	215.83	Rhif Siec	000822
BT (ffôn)	£	119.15	Rhif Siec	000823
Nefyn Cleaning (llochesi bws)	£	221.94	Rhif Siec	000829
Cyngor Gwynedd (Parc Sglefrio)	£	41.15	Rhif Siec	000830
Cyngor Gwynedd (Gosod Polyn Baner)	£	543.91	Rhif Siec	000831
Viking Direct (Defnydd Swyddfa)	£	158.12	Rhif Siec	000832
Cyngor Gwynedd (llogi neuadd Ysgol y Moelwyn)	£	72.00	Rhif Siec	000833
Ifan ac Idris (Llwybrau Cyhoeddus)	£	4230.00	Rhif Siec	000834
Ifan ac Idris (Torri coeden yn Llan)	£	205.00	Rhif Siec	000835
J Ephraim (hwfer)	£	60.00	Rhif Siec	000836
Scribe 2000 (system cyfrifon)	£	245.00	Rhif Siec	000837
Dewi I Roberts (dymchwel lloches bws)	£	1133.88	Rhif Siec	000838
Tiscali (ffôn a band eang)	£	27.18	Debyd Uniongyrchol	
British Gas (Goleuadau Nadolig)	£	38.98	Debyd Uniongyrchol	

Rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu'r uchod.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 yr hwyr.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD 14 eg MEHEFIN 2007
AR 7 fed MEHEFIN 2006

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR
NOS IAU 14eg O FEHEFIN 2007
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 yh

CADEIRYDD